# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Family Fostering Partners Ltd**

**Uned 1 Bloc B**
**Llys Y Barcud**
**Clos Gelliwerdd**
**Llanelli**
**SA14 6RX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Family Fostering Partners Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Maethu |
| Darparwr Cofrestredig | Family Fostering Partners Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | Ddim yn gymwys |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dd/G |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Gwasanaeth yw Family Fostering Partners sy'n amlwg yn rhoi llesiant plant wrth wraidd popeth mae'n ei wneud. Caiff y plant ofal o ansawdd da gan ofalwyr maeth medrus ac ymroddedig sy'n cynnig sefydlogrwydd ac ymatebion addas i anghenion y plant. Rhoddir blaenoriaeth i addysg ac iechyd y plant ac mae'r gofalwyr maeth a'r staff yn eiriolwyr cryf ar gyfer hawliau plant.

Mae'r asiantaeth yn gosod gwerth uchel ar gefnogi gofalwyr maeth i ddatblygu eu gwydnwch a'u sgiliau drwy hyfforddiant cynhwysfawr ac ymweliadau pob pythefnos â chartrefi maeth. Ceir tîm o staff ymroddedig a brwdfrydig sy'n cael eu cefnogi'n dda eu hunain gan dîm rheoli gwybodus ac ymrwymedig.

Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn gadarn. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac maent yn syml. Ceir llinellau atebolrwydd clir a rolau staff diffiniedig. Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau y caiff arferion recriwtio diogel eu dilyn a disgrifiodd y staff broses gynefino drylwyr. Mae'r rheolwr ac aelodau staff eraill wedi newid sawl gwaith yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ond mae'r tîm o staff bellach wedi'i sefydlu ac mae'n gweithio'n effeithiol ac yn gydlynol.

## Llesiant

Gall y plant fynegi eu barn a gwneud dewisiadau yn unol â'u lefel dealltwriaeth a'u haeddfedrwydd. Mae gweithwyr cyswllt yn cynnwys arsylwadau o blant a'u safbwyntiau mewn cofnodion o'u hymweliadau â chartrefi maeth ac maent yn cyfrannu at adolygiadau blynyddol o ofalwyr maeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymgysylltu â phlant yn ystod digwyddiadau cymdeithasol. Gwneir plant yn ymwybodol y gall eiriolwr annibynnol ymweld â nhw i drafod materion, a chânt eu hannog a'u cefnogi i fynychu eu Hadolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal neu gael rhywun i gynrychioli eu dymuniadau ar eu rhan. Mae'r darparwr gwasanaeth yn datblygu ffyrdd o ymgynghori â phlant ar sail grŵp.

Mae'r wybodaeth am y gwasanaeth ar gael i blant mewn llyfryn deniadol yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gwybodaeth am sut i wneud cwyn neu pwy i siarad â nhw os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi paratoi llyfryn gwybodaeth i rieni sy'n symud i leoliadau rhiant a phlentyn, a cheir gweithiwr cyswllt ymroddedig gydag arbenigedd a phrofiad sy'n cefnogi'r trefniadau hyn.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn addysg ac yn cael eu hannog i ddatblygu i'w llawn botensial. Roedd hi'n amlwg o'n trafodaethau gyda staff a gofalwyr maeth fod addysg yn flaenoriaeth i'r plant sy'n derbyn gofal. Mae'r asiantaeth yn darparu hyfforddiant i helpu gofalwyr maeth a staff i ddeall systemau a phrosesau addysgol sydd hefyd yn rhoi'r hyder iddynt herio penderfyniadau lle y bo'n briodol. Mae gofalwyr maeth yn gweithio mewn partneriaeth â staff ysgol i hyrwyddo gofal ac ymatebion cyson. Mae plant cyn ysgol yn mynd i feithrinfeydd neu gylchoedd chwarae os yw hyn yn gyson â'u llesiant a'u datblygiad.

Caiff y plant gymorth i fod mor iach â phosibl. Caiff eu hanghenion iechyd corfforol, emosiynol a seicolegol eu deall gan eu gofalwyr maeth ac maent yn mynd i'r afael â nhw. Mae gofalwyr maeth yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac arferion wedi'u strwythuro i ymgorffori arferion hylendid personol da. Mae plant wedi'u cofrestru ag asiantaethau gofal iechyd sylfaenol. Maent yn mynd i apwyntiadau rheolaidd fel y bo angen, ac yn cael gafael ar wasanaethau mwy arbenigol fel lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol neu therapi os oes angen. Roedd y darparwr gwasanaeth wedi comisiynu gwasanaethau therapydd yn flaenorol, yr oedd ei gyfraniad a'i gyngor yn werthfawr iawn fel cymorth i weithwyr cyswllt a gofalwyr maeth. Ceir ymgais weithgar i recriwtio rhywun addas ers i'r swydd ddod yn wag.

Mae'r plant yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn cael hwyl. Caiff cydberthnasau â'u teuluoedd eu hyrwyddo cyhyd â bod hynny'n gyson â'u llesiant a chaiff ymdrechion eu gwneud i gadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd ble bynnag y bo'n bosibl. Os yn briodol, bydd gofalwyr yn goruchwylio cysylltiadau ac yn anfon fideos a ffotograffau at aelodau teulu genedigol. Mae'r darparwr gwasanaeth yn eirioli i waith stori bywyd gael ei wneud gyda phlant ac mae yn y broses o ddarparu hyfforddiant ychwanegol i weithiwr cymorth

ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith hwn os bydd yr awdurdod lleol sy'n gosod y plentyn yn cytuno ar hyn.

Dangosodd y ffeiliau fod plant yn mynd i glybiau a gweithgareddau allgyrsiol fel gwersi nofio a chlwb afancod. Maent yn cael ffrindiau draw am de ac maent yn mynd ar dripiau preswyl gyda'r ysgol. Maent yn mwynhau tripiau i barciau a thraethau ac yn mynd ar wyliau gyda'u gofalwyr maeth. Mae'r asiantaeth faethu hefyd wedi trefnu gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn i'r plant, sy'n cynnwys diwrnod gweithgareddau hwyl yr haf, digwyddiad y Pasg a thripiau i ddigwyddiad ‘Luminate’ a phantomeim. Caiff digwyddiadau pwysig ym mywydau'r plant eu cydnabod a'u dathlu. Er enghraifft, maent yn derbyn ‘pecyn goroesi arholiadau’ cyn sefyll arholiadau neu brofion ac yn anfon cerdyn i gydnabod cynnydd a all fod ar gyfer cyflawniadau cymharol fach ond sy'n cynrychioli cynnydd sylweddol i'r plentyn penodol.

## Gofal a Chymorth

Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolion a chefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Roedd cofnodion y plant yn cynnwys y dogfennau gofynnol gan mwyaf, ond roedd rhai wedi bod yn lleoliadau Family Fostering Partners am gryn gyfnod o amser ac roedd dogfennau allweddol yr awdurdod lleol ar goll. Mae angen cryfhau'r asesiadau o gydnawsedd plant i gyd-fyw a'r effaith ar ofalwyr maeth, i sicrhau y caiff yr holl wybodaeth a ddefnyddir wrth benderfynu ar addasrwydd y lleoliadau ei nodi.

Caiff y plant eu cefnogi gan ofalwyr maeth sy'n deall eu hanghenion ac yn darparu gofal ymatebol. Maent yn profi sefydlogrwydd, cynhesrwydd ac ymdeimlad o berthyn. Siaradodd yr unigolyn cyfrifol a'r staff yn frwdfrydig am eu dymuniad i hyrwyddo sefydlogrwydd y plant sy'n cael eu gosod gyda gofalwyr maeth, a gwelsom enghreifftiau o fesurau creadigol a rhagweithiol yn cefnogi plant a gofalwyr maeth yn llwyddiannus ac yn cynnal lleoliadau. Mae gan bob plentyn flwch cof ac yn eu hymweliadau, mae'r gweithwyr cyswllt yn sicrhau bod gofalwyr a phlant yn ychwanegu at y rhain.

Mae'r plant yn profi llesiant ac ymdeimlad o gyflawniad am eu bod yn gallu cael gafael ar gyfleoedd i ddysgu, dilyn eu diddordebau a datblygu sgiliau. Gwelwyd hyn yn y cofnodion y mae'r gweithwyr cyswllt yn eu gwneud o'r ymweliadau â'r gofalwyr maeth. Mae adroddiadau o gynnydd plant a gwblheir yn fisol gan weithwyr cyswllt yn dangos bod pynciau fel dysgu/addysg, bod yn iach, amser teuluol, diogelu, a sgiliau annibyniaeth yn cael eu hystyried bob amser. Mae'r rhain yn ffurfio'r sail i'r ffordd y mae'r darparwr gwasanaeth yn monitro canlyniadau llesiant y plant sy'n cyfrannu at adolygiadau'r Plant sy'n Derbyn Gofal.

Caiff y plant eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r plant yn cael asesiadau risg unigol a chynlluniau gofal mwy diogel i gefnogi gofalwyr maeth i gynnig gofal a chymorth diogel a chyson. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd neu pan fydd newid yn digwydd. Mae'r gofalwyr yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i'r plant i'w helpu i gadw eu hunain yn ddiogel wrth iddynt dyfu'n a mynd yn fwy annibynnol. Mae gofalwyr a staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu a hyfforddiant atodol ar faterion penodol fel mynd ar goll o ofal a rheoli honiadau. Caiff camau priodol eu cymryd mewn ymateb i faterion diogelu gwirioneddol neu botensial a materion a atgyfeiriwyd at weithwyr cymdeithasol ac asiantaethau diogelu fel y bo'n ofynnol. Mewn ymateb i adborth gan ofalwyr maeth, mae'r darparwr gwasanaeth wedi datblygu systemau cymorth ychwanegol i ofalwyr maeth yn amodol ar honiadau ond heb gyfaddawdu gweithdrefnau diogelu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r asiantaeth yn gweithredu o ddwy swyddfa. Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom arolygu'r swyddfa yn Cross Hands, Gorllewin Cymru.

Mae safle'r swyddfa yn briodol ac yn addas at y diben. Mae swyddfa'r staff i lawr y grisiau sy'n cynnwys ystafell fawr, a rennir a dwy swyddfa lai o faint. Mae ystafell gynadledda/gyfarfod fawr a golau i fyny'r grisiau a ddefnyddir at ddibenion hyfforddi, cyfarfodydd tîm y staff a phaneli maethu. Caiff cofnodion eu storio'n ddiogel, gan gynnwys cofnodion electronig a ddiogelir gan gyfrinair, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd i sicrhau bod y safle'n aros yn ddiogel i'r plant, gofalwyr maeth a'r staff ei ddefnyddio. Mae'r landlord yn ymgymryd â driliau diogelwch tân rheolaidd.

Caiff cartrefi gofalwyr maeth eu hasesu pan gânt eu recriwtio er mwyn cadarnhau eu haddasrwydd wrth ddiwallu anghenion y plant. Mae gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn ymweld â chartrefi yn rheolaidd yn ystod ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd a dirybudd, sy'n rhoi cyfle i asesu amgylchedd y cartref. Ystyrir bod safonau iechyd a diogelwch yng nghartrefi gofalwyr maeth yn rhan o'r broses adolygu flynyddol ffurfiol, ynghyd ag asesiadau o anifeiliaid anwes er mwyn asesu diogelwch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn recriwtio, yn asesu ac yn hyfforddi gofalwyr maeth i sicrhau bod ganddynt y sgiliau, gwerthoedd a gwydnwch angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plant. Mae darpar ofalwyr maeth yn derbyn gwybodaeth glir a hyfforddiant addas i'w paratoi ar gyfer eu rôl o faethu. Gwnaethom adolygu sawl cofnod panel maethu sy'n dangos craffu a gwneud penderfyniadau da ar y cyfan ar gyfer cymeradwyaeth gofalwyr maeth, newidiadau o ran cymeradwyaeth, a phan fydd pryderon yn cael eu codi mewn perthynas â'r safonau gofal a chymorth a ddarperir i'r plant. Fodd bynnag, mewn un achos, bach iawn o dystiolaeth y gwnaethom ei chanfod i gefnogi penderfyniad y panel i wneud newid sylweddol i statws cymeradwyo gofalwr maeth a'r rhesymeg dros gadarnhau a fyddai'r gofalwyr yn gallu diwallu anghenion plentyn. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol gydnabod hyn, rhoddodd sicrwydd o ran ymarfer yn y dyfodol ac ymrwymiad i godi'r mater mewn perthynas â'u swyddogaeth sicrhau ansawdd i'r panel.

Mae gan y darparwr gwasanaeth systemau sicrhau ansawdd da ac mae'n ymrwymedig i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu i'r plant. Ceir system cofnodion electronig sy'n galluogi gofalwyr a staff i fwydo gwybodaeth yn hawdd ac yn gyfamserol. Mae'n darparu cofnod cynhwysfawr o ofalwyr maeth a'r plant maent yn gofalu amdanynt, yn ogystal ag ystod o ddata perfformiad.

Mae'r unigolyn cyfrifol, y pennaeth maethu a'r rheolwr maethu yn brofiadol a gwybodus iawn ac yn cymryd rhan mewn modd cadarnhaol ym mhob agwedd ar y gwasanaeth. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol drwy gydol y flwyddyn i sicrhau eu bod yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda, gan gynnwys cyfleoedd i gwrdd ac ymgynghori â phlant, gofalwyr a staff. Mae hyn yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau gofalwyr a phlant, grwpiau cymorth gofalwyr maeth, cyfarfodydd staff a phaneli maethu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adolygu ffeiliau achos y gofalwyr a'r plant yn unigol a lle y bo'n briodol, mae'n mynd i adolygiadau blynyddol y gofalwyr neu'n cyflawni ymweliadau lles â gofalwyr maeth. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod gofalwyr maeth a phlant yn gyfarwydd â'r Unigolyn Cyfrifol ac yn rhoi sicrwydd iddynt fod gan yr Unigolyn Cyfrifol ddiddordeb ynddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Byddai cofnodi'r gweithgareddau hyn mewn ffordd fwy ffurfiol ac wedi'i strwythuro, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau neu gamau gweithredu sy'n codi, yn dangos yn gliriach sut mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bodloni ei ddyletswydd i fonitro perfformiad a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i lywio'r adolygiad ansawdd gofal.

Caiff adroddiadau ar ansawdd y gofal eu cwblhau o fewn yr amserlen ac maent yn cynnwys dadansoddiad o ddata i ddeall a nodi unrhyw batrymau, tueddiadau neu feysydd i'w gwella neu ddatblygu. Lle y caiff camau gweithredu eu nodi, dylid eu pennu i unigolyn cyfrifol gydag amserlenni i'w cwblhau i osgoi oedi.

Mae'r plant yn cael budd o wasanaeth lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant a chymorth y gofalwyr maeth a'r staff. Roedd mwyafrif y gofalwyr maeth yn graddio'r cymorth gan yr asiantaeth fel *"excellent"* a *"the support provided works well"* gyda'r rhan fwyaf yn teimlo y gallent gysylltu ag aelod o'r staff unrhyw bryd. Ar wahân i'r ymweliadau, roedd y gweithwyr cymdeithasol yn ffonio'r gofalwyr yn rheolaidd ac yn mynd i gyfarfodydd gyda nhw. Mae'r gofalwyr yn gwybod sut i wneud cwyn ffurfiol os teimlant fod angen hynny. Cafwyd un gŵyn yn ystod y deuddeg mis cyn yr arolygiad, yr ymdriniwyd yn briodol â hi, gan gynnwys ymweliad cartref gan y gwasanaeth a'r rheolwyr maethu â chartref y gofalwyr. Darparwyd ymateb ysgrifenedig ar y diwedd a chafodd y mater ei ddatrys.

Mae'r staff a'r rheolwyr yn cwrdd bob pythefnos i gynnig cymorth i'w gilydd, ac i rannu gwybodaeth a syniadau. Mae hyn yn golygu y bydd staff ym mhob rhan o'r asiantaeth, o weithwyr cyswllt i'r Unigolyn Cyfrifol, yn adnabod yr holl ofalwyr yn dda; eu hamgylchiadau, cryfderau a phrofiad. Mae gofalwyr maeth yn gwerthfawrogi y bydd gan bwy bynnag sydd ar alwad ar unrhyw adeg rywfaint o wybodaeth amdanynt ac am y plant sy'n byw gyda nhw.

Mae'r staff yn cael goruchwyliaeth reolaidd, o ansawdd da ac yn ystyrlon, gan reolwr llinell ac arfarniadau blynyddol, a dangoswyd hyn yn ffeiliau'r staff y gwnaethom eu gwirio. Roedd cynnwys y cofnodion goruchwylio'n drylwyr ac yn cynnwys trafodaethau mewn perthynas â'r gofalwyr maeth ar lwyth achosion pob gweithiwr cyswllt.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn cyflogi rheolwr hyfforddi a datblygu sy'n cyflwyno'r mwyafrif o'r hyfforddiant, weithiau gyda chymorth gofalwyr maeth a gweithwyr cyswllt. Mae amserlen hyfforddiant gynhwysfawr ar waith i ofalwyr maeth a'r staff. Caiff hyfforddiant gofalwyr maeth ei ddarparu'n aml i ofalwyr mewn un o dair ardal ddaearyddol. Mae gan y rheolwr hyfforddi a datblygu gysylltiad agos â gweithwyr cyswllt ac mae'n wybodus am y gofalwyr a'r plant, ac yn teilwra'r hyfforddiant i faterion ac anghenion penodol y cyfranogwyr, yn ogystal â thynnu oddi ar eu profiad a'u sgiliau. Caiff yr hyfforddiant ei werthfawrogi'n fawr gan ofalwyr a staff.

.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/09/2023